# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 15 Ionawr 2024

Amser: 14.00 - 14.20

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/13676) yn:

[http://senedd.tv/cy/13676](http://senedd.tv/cy/13676)

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jack Sargeant AS (Cadeirydd)<br>Rhys ab Owen AS<br>Joel James AS<br>Peredur Owen Griffiths AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Gareth Price (Clerc)<br>Mared Llwyd (Ail Glerc)<br>Kayleigh Imperato (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Buffy Williams AS.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-06-1367 Dylid ariannu gwaith i symud creigiau chwarel ac adfer tywod a grwynau i Lannau Gogledd Llandudno

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i wneud cais am ddadl ar y mater.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-06-1217 Agor canolfannau / clinigau meddygol un stop Covid Hir

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a mynegodd ei siom nad oedd cyfarfod rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a'r deisebydd wedi'i gynnal ac na chafwyd unrhyw gyswllt. Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at y Gweinidog yn mynegi siom y Pwyllgor ac yn gofyn am gysylltu â'r deisebydd cyn gynted â phosibl.

### 3.2 P-06-1253 Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb ochr yn ochr â deiseb *P-06-1354 Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi rasio milgwn yng Nghymru a* chroesawodd yr ymgynghoriad ar drwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid sy'n dod i ben ar 1 Mawrth.

Cytunodd yr Aelodau i gadw golwg ar y deisebau nes bod canlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi.

### 3.3 P-06-1354 Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi rasio milgwn yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb ochr yn ochr â deiseb *P-06-1253 Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru* a chroesawodd yr ymgynghoriad ar drwyddedu sefydliadau lles, gweithgareddau ac arddangosfeydd anifeiliaid sy'n dod i ben ar 1 Mawrth.

Cytunodd yr Aelodau i gadw golwg ar y deisebau nes bod canlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi.

### 3.4 P-06-1368 Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i gadw'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol mewn perthynas â Chymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd fod amgylchiadau wedi newid ers pasio Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 ac nad oes dyddiad dod i ben bellach ar gyfer Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Nododd yr Aelodau hefyd fod y Gweinidog Newid Hinsawdd a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn gwerthfawrogi'r gwaith a wnaed gan fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd.

Yng ngoleuni hyn, cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebwyr am eu gwaith ar y mater hwn a'u diddordeb.

### 3.5 P-06-1333 Dylid atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag torri coed, sy'n bygwth parhad gwiwerod coch

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd mai dyma'r ail ddeiseb sy'n codi pryder am ddull Cyfoeth Naturiol Cymru o dorri coed a diogelu gwiwerod coch.

Cytunodd yr Aelodau i gadw'r ddeiseb ar agor am 12 mis a gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwaith ar y cyd rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid sy'n ymwneud â chadwraeth wiwerod coch yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

### 3.6 P-06-1363 Achubwch ein Gwasanaeth Tân ac Achub

Datganodd Jack Sargeant AS y buddiant perthnasol a ganlyn o dan Reol Sefydlog 17.24A:

Mae wedi ysgrifennu at Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ynghylch y mater hwn sy'n effeithio ar ei etholaeth.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a nododd y newyddion cadarnhaol nad yw gorsafoedd y Rhyl a Glannau Dyfrdwy wedi cael eu hisraddio yn dilyn yr ymgynghoriad, a disgwylir i'r lefel bresennol o ddarpariaeth barhau. Yng ngoleuni hyn, cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb a llongyfarch y deisebydd a phawb a gefnogodd yr ymgyrch.

### 3.7 P-06-1375 Cynnal etholiad Senedd yn gynnar

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd, er ei fod wedi casglu'r nifer gofynnol o lofnodion i ystyried cyfeirio'r ddeiseb ar gyfer dadl yn y Senedd, nid oes unrhyw fanteision clir i wneud hynny, nac i gymryd unrhyw gamau pellach o ran y ddeiseb. Yng ngoleuni hyn, cytunodd yr Aelodau i gau'r ddeiseb a diolch i'r deisebydd am ymgysylltu â'r Pwyllgor

## 4 Papurau i'w nodi

Cafodd y papurau eu nodi.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Blaenraglen waith

Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith.